CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Adfywio Economaidd a Chymunedol
Head of Service - Economic and Community Regeneration

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan J. Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 3rd June 2015

**Swyddogol / Official**

Martha Da Gama Howells
Clerc, Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1NA

Annwyl Mrs Howells,

**Ynglyn â: Fframwaith ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Sgiliau**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad Pwyllgor Menter a Busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fframwaith ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Sgiliau.

O gofio bod cyllid cyhoeddus yn prinhau, mae CSYM yn gwerthfawrogi'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau system sgiliau sy'n ariannol gynaliadwy dros y tymor canol i'r tymor hwy. Bydd angen blaenoriaethu adnoddau i sicrhau'r effaith fwyaf. Mae mynd ar drywydd model buddsoddi ar y cyd yn ymagwedd resymegol tuag at hyrwyddo newid diwylliant gyda nifer fwy o gyflogwyr yn buddsoddi yn sgiliau eu gweithlu ac unigolion yn cymryd cyfrifoldebau am ddysgu.

Bydd y prosiectau trawsnewidiol arfaethedig a fydd yn denu mewnfuddsoddiad i Ynys Môn (trwy ddatblygu gorsaf niwclear Wylfa Newydd a datblygiadau ynni carbon isel eraill), yn creu rhagolygon heb eu hail ar gyfer twf economaidd, creu swyddi newydd, a gwell safon byw. I fanteisio ar y cyfleon hyn, bydd angen cynllunio effeithiol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat a bydd targedu buddsoddiad i ddatblygu sgiliau yn hanfodol.

Bydd graddfa'r newid (sgiliau newydd/gofynion llafur) yn golygu y bydd angen uwchsgilio'r gweithlu lleol er mwyn bod yn gystadleuol yn y farchnad lafur a bydd angen ymateb mewn dull a dargedir i ddadleoliad gweithwyr a gweithwyr sy'n gadael. Teimlir yr heriau a'r cyfleon hyn ar draws yr Ynys a'r rhanbarth.

Dear Mrs Howells,

**Re: Framework for Co-Investment in Skills**

The Isle of Anglesey County Council (IACC) welcomes the opportunity to comment on the National Assembly for Wales's *Enterprise and Business Committee* consultation on the Welsh Government's Co-investment in Skills framework.

Given the context of reducing public finances, the IACC appreciate the need for the Welsh Government to secure a financially sustainable skills system over the medium to longer term. Resources will have to be prioritised to create the most impact. Pursuing a co-investment model is a logical approach to promote a culture shift with a larger number of employers investing in the skills of their workforce and individuals taking responsibility for their learning.

The proposed transformational inward investment projects on Anglesey (through the development of the Wylfa Newydd nuclear new build and other low carbon energy developments), will create unrivalled prospects for economic growth, new job creation, and improved quality of life. Taking advantage of these opportunities will require effective public-private strategic planning, with targeted investment in skills development being critical.

The scale of change (new skills/ labour requirements), will require appropriate upskilling of the local workforce to be competitive in the labour market, and a targeted response to labour displacement and workforce churn. These challenges and opportunities will be felt across the Island and the region.

O fewn y cyd-destun hwn, cyflwynir y sylwadau a ganlyn ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Sgiliau:

a) Yn cefnogi'n llawn ac yn cymeradwyo uchelgais/nod y fframwaith fel yr amlinellir ar dudalen 3 yn yr ymgynghoriad.

b) Ansicr a fyddai'r un ymagwedd yn gweithio gyda chwmnïau mawr a busnesau bychain a chanolig hefyd oherwydd cyfyngiadau a rhwystrau (cadw'r gweithlu, buddion, cynnydd mewn cyflogau'n fwy cyffredin mewn cwmnïau mawr).

c) Ansicrwydd a fyddai'r un ymagwedd / dull o weithredu yn gweithio ar gyfer ardaloedd llewyrchus ac ardaloedd difreintiedig hefyd (a chwmnïau yn yr ardaloedd hynny).

d) Ansicrwydd a fyddai'r un ymagwedd/dull o weithredu yn gweithio ar gyfer ardaloedd trefol ac ardaloedd ymylol hefyd (mae maint cwmnïau, dwysedd, nifer y staff i'w hyfforddi oll yn creu cyfyngiadau gwahanol).

e) Dylai'r ymagwedd gydnabod gwahaniaethau rhwng busnesau sector preifat a'r gwahaniaeth rhwng gallu cwmnïau mawr a bychan i ymrwymo amser ac adnoddau i ddatblygu sgiliau.

f) Os nad yw'r gwahaniaethau a nodir uchod wedi eu hintegreiddio'n effeithiol i'r weithdrefn gyflawni ar gyfer y Fframwaith, gallai niweidio twf a datblygiad ac arwain at danberfformiad economaidd a mwy o dlodi.

g) Mae buddsoddi mewn prentisiaid yn flaenoriaeth, ond mae'n hollbwysig bod cyfleon ar gael i ennill profiad galwedigaethol (ystyriaeth bwysig i ddarparwyr a chyflogwyr).

h) Dylid ychwanegu ffocws ar bynciau STEM i'r tabl o flaenoriaethau buddsoddi (tudalennau 5 a 6).

i) Mae cymorth ychwanegol ar gyfer gweithwyr yn y meysydd rhifedd a llythrennedd i Lefel 2 yn hollbwysig fel sail ar gyfer cynnydd (ym mherfformiad a dysg yr unigolyn).

Within this context, the following comments are presented on the Welsh Government's Co-investment in Skills framework:

a) Fully supportive and endorse the ambition/ aim of the co-investment framework as outlined in Page 3 of the consultation.

b) Uncertain if the same approach will work with large companies and small SMEs because of constraints and barriers (workforce retention, benefits, salary increases more prevalent in large companies).

c) Uncertain if a consistent approach/ application between prosperous and deprived areas (and companies within those areas) would be effective.

d) Uncertain if consistent approach/ application between urban/ peripheral rural areas would work (company size, density, overall staff numbers to be trained create different constraints).

e) The approach should recognise differences between private sector businesses, and their ability to commit time and resources to skills development between large and small companies.

f) If these differences noted above are not integrated effectively into the Frameworks delivery mechanism then it could damage growth, development, and lead to greater economic underperformance and poverty.

g) Investment in apprentices is a priority, but ensuring the opportunities exist to gain vocational experience is critical (important consideration for providers and employers).

h) Focus on STEM subjects should be added to the investment priorities table (pages 5 and 6).

i) Additional support for employees in basic numeracy and literacy to Level 2 is critical to underpin progression (in individual learning and performance).

j) Bydd Wylfa Newydd a buddsoddiadau mawr eraill yn Ynys Môn yn golygu dadleoli gweithwyr ac mae cwmnïau bychan eisoes yn bryderus ynghylch effaith hynny (a cholli eu gweithwyr i'w cystadleuwyr). O ganlyniad, mae'n hynod annhebygol y bydd busnesau bach a chanolig yn buddsoddi mwy mewn hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd angen ymateb rhanbarthol/lleol wedi ei deilwrio'n bwrpasol.

k) Mae angen i'r cwmnïau mawr gydweithio a chefnogi'r cwmnïau cadwyn gyflenwi o ran buddsoddi mewn sgiliau - mae hyn wedi ei adael allan. Bydd hyn yn sicrhau y bydd buddsoddi ar y cyd yn opsiwn ar gyfer cwmnïau llai a bydd yn dilyn arferion da mewn economïau llwyddiannus eraill.

l) Dylid ystyried y gwahaniaeth rhwng proffiliau economaidd/cwmnïau o ran eu maint a'u harwyddocâd rhwng rhanbarthau (er mwyn llywio dulliau cyflawni).

m) Mae'n debygol y bydd yn haws cyflawni lefelau uwch o fuddsoddiad ymysg cwmnïau mawr.

n) Dylid cadw mewn cof effaith ac arwyddocâd gostyngiad sylweddol yn argaeledd cyllid ESF yr UE ar ôl 2020.

o) Roedd Cynllun Prentisiaethau ar y Cyd Môn yn enghraifft dda o agwedd gydweithredol a ddilynwyd flynyddoedd yn ôl – gellid ei ystyried fel rhan o'r cynigion.

I gloi, rydym yn cefnogi nod ac uchelgais fframwaith buddsoddi ar y cyd Llywodraeth Cymru, ond mae gennym rai pryderon ynghylch ei weithrediad. Nid yw cymhlethdod y dirwedd sgiliau busnes yn benthyg ei hun yn rhwydd i un dull o weithredu sy'n addas i bawb ac mae'r fframwaith angen hyblygrwydd cynhenid i wneud darpariaeth ar gyfer anghenion y sector busnes - o'r busnesau bychain a chanolig i'r cwmnïau rhyngwladol mwy.

Mae angen ymateb wedi ei deilwrio'n benodol i gwrdd â'r cyfleon trawsnewid arwyddocaol megis y Rhaglen Ynys Ynni yng Ngogledd Cymru. Bydd yn anodd rhagweld hyd nes y bydd yr anghenion yn glir o ran y galw. Rydym yn gobeithio y bydd y Fframwaith Buddsoddi ar y Cyd yn sail ar gyfer ymateb addas a chydweithredol i'r heriau sy'n wynebu'r rhaglen cyflogaeth a sgiliau yn y rhaglen uchelgeisiol hon.

j) Wylfa Newydd and other large scale investments in Anglesey will create 'employment churn', with small companies already concerned about displacement impacts (and losing their workforce to competitors). As a result, increasing investment by SMEs in the area on training, during this period of time is highly unlikely. A bespoke local/ regional response will be required.

k) The large companies need to collaborate and support their supply chain companies in terms of investment in skills – this has been omitted. This will ensure co-investment is an option for smaller companies, and will follow good practice in other successful economies.

l) The difference between economic/ company profiles, in terms of scale and significance between regions should be considered (to inform delivery approaches).

m) Increasing levels of investment will probably be easier to achieve amongst large companies.

n) Impact of considerable reduction in availability of EU ESF funding post 2020 should not be underestimated.

o) The Môn Shared Apprenticeship Scheme was a good example of collaborative approach undertaken years ago – could be considered as part of the proposals.

To conclude, we are supportive of the aim and ambition of the Welsh Government's co-investment framework, but do have some concerns regarding its implementation. The complexity of business skills landscape does not lend itself easily to a one size fits all, and the framework needs an inherent flexibility to accommodate the needs of the business sector from the small SMEs to the larger multi-nationals.

Significant transformational opportunities such as the Energy Island Programme in North West Wales requires a bespoke response, which will be difficult to forecast until the demand requirements are clear. We hope that the Co-investment Framework will underpin a suitable, and collaborative response to the challenges facing the employment and skills agenda of this ambitious programme.

Os hoffech drafod mwy ar unrhyw fater cysylltiedig mae croeso i chi gysylltu gyda Dylan Williams, Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol (e-bost: dylanjwilliams@ynysmon.gov.uk).

If you wish to discuss any related issue further, please do not hesitate to contact Dylan Williams, Head of Economic & Community Regeneration (email: dylanjwilliams@anglesey.gov.uk).

Yn gywir / Yours sincerely,

**Dylan Williams**
**Pennaeth Gwasanaseth – Adfywio Economaidd a Chymunedol /**
**Head of Service – Economic and Community Regeneration**

***c.c. Iwan Thomas*** *- Cydlynydd Rhanbarthol Sgiliau a Chyflogaeth ar ran y BUEGC /*
*Regional Skills & Employment Coordinator on behalf of the NWEAB*

***Iwan Trefor Jones*** *– Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd /*
*Corporate Director, Gwynedd Council*

***Ian Rees*** *– Pennaeth: Coleg Menai, Uwch Gyfarwyddwr: Adfywio a Materion Allanol /*
*Principal: Coleg Menai, Executive Director: Regeneration and External Affairs*